



## **Briff y Gwerthuswr Ni yw'r Dyfodol**

### **Gwybodaeth am y prosiect:**

Mae'r prosiect Ni yw'r Dyfodol yn un Ymchwil a Dylunio uchelgeisiol, wedi'i leoli yn y Fenni a Gogledd Sir Fynwy. Wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Theatr y Fwrdeistref a Theatr Melville, nod y prosiect yw cysylltu ag ysbryd creadigol pobl ifanc yr ardal a'i gipio. Drwy weithio mewn partneriaeth a gwaith consortiwm, rydym am roi pobl ifanc wrth wraidd y gwaith o gynllunio a datblygu'r prosiect.

Rydym yn chwilio am Werthuswr Prosiect profiadol ac effeithiol i werthuso pob agwedd ar y prosiect yn llawn. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed oddi wrth Werthuswyr sydd wedi gweithio mewn lleoliadau cymunedol yn flaenorol ac sydd â phrofiad o werthuso prosiectau mawr gyda nifer o randdeiliaid, partneriaid a grwpiau cymunedol.

Bwriad y prosiect yw dod ag ieuentid Gogledd Sir Fynwy at ei gilydd i leisio'u safbwyntiau, i nodi eu profiadau a'u pryderon a rennir a gweithio ar syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo perchnogaeth o farn/safbwyntiau unigol a chreadigrwydd a rennir.

Bydd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o ffurfiau celf er enghraifft Cerddoriaeth, Theatr, y Celfyddydau Gweledol, Ffilm a Thechnolegau digidol, Dawns. Er mwyn rhoi Llais Ieuentid yng nghanol y prosiect, byddwn yn gweithio gyda Hwyluswyr Creadigol i ddyfeisio gwaith ar y cyd â phobl ifanc, gan weithio mewn amrywiaeth o leoliadau, o ysgolion i grwpiau cymunedol. Bydd y prosiect yn arwain at Wyl Gelfyddydau Ieuentid yn cael ei chynnal dros benwythnos Gŵyl Banc y Jiwbilî.

Ariennir y prosiect gan gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU gyda blaenoriaethau buddsoddi mewn sgiliau, cymuned a lle.

### **Rôl Gwerthuswr:**

Llinell amser y prosiect yw Chwefror - Mehefin 2022 ac rydym yn chwilio am werthuswr i ddod i'r adwy o fis Mawrth 2022 ac aros gyda ni tan fis Gorffennaf 2022.

### **Tasgau Allweddol:**

- Gwerthuso'r prosiect yn erbyn y canlyniadau a'r allbynnau a ragwelir gan gynllun Adfywio Cymunedol llywodraeth y DU ac adrodd ar sut y gall y prosiect ddatblygu o dan gynlluniau llywodraeth y DU yn y dyfodol.
- Cynllunio gwaith ffrâm werthuso drylwyr ar gyfer y prosiect a rhoi hyn ar waith o fis Mawrth ymlaen.
- Cyfathrebu'n effeithiol â phawb sy'n rhan o'r prosiect: Cynhyrchydd y Prosiect / Hwyluswyr Creadigol, Ysgolion a Grwpiau Cymunedol/partneriaid prosiect ac eraill.
- Adeiladu darlun o'r prosiect yn ei gyfanrwydd, gan greu naratif o amgylch y broses, gan gadw canlyniadau'r prosiect mewn ffocws drwy gydol y prosiect.
- Ysgrifennu adroddiad terfynol ar y prosiect, gan gynnwys naratif o'r broses, ffeithiau a ffigurau, ac argymhellion ar gyfer prosiectau a chyllid yn y dyfodol.

### **Meini Prawf Hanfodol:**

- Profiad o werthuso gweithgarwch ieuentid a chymunedol ar raddfa fawr, a arweinir gan gyfranogwyr
- Profiad o dirwedd ariannu'r celfyddydau a'r meini prawf ar gyfer adrodd ar grantiau
- Cyfathrebwr rhagorol
- Y gallu i wrando ar ystod o gyfranogwyr, ymarferwyr creadigol a phartneriaid ac ymgysylltu â nhw

- Profiad o weithgarwch celfyddydol gwirfoddol ac amatur ac ymrwymiad iddo
- Gwybodaeth am Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU neu feini prawf asesu ac adrodd eraill Llywodraeth y DU
- Gwybodaeth a phrofiad o sector a seilwaith celfyddydau/diwylliannol Cymru
- Y gallu i deithio o amgylch Gogledd Sir Fynwy
- Parodrwydd i weithio penwythnosau a nosweithiau pan fo angen
- Gwybodaeth am bolisiau a gweithdrefnau diogelu presennol a'r gallu i weithio o fewn y rheiny

### **Meini Prawf Dymunol:**

- Y gallu i siarad a chyfathrebu yn yr iaith Gymraeg

### **Cyllideb/Ffi:**

Mae ffi o £10,000 ar gyfer y prosiect hwn.

### **Sut i wneud cais:**

I wneud cais am rôl Gwerthuswr ar y prosiect Ni yw'r Dyfodol, darllenwch yn ofalus ddisgrifiad y prosiect a'r meini prawf hanfodol a dymunol.

### **Anfonwch atom:**

- Eich CV a dolen i'ch gwefan os oes gennych un
- Llythyr eglurhaol yn amlinellu sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod. Dylai'r llythyr hwn gynnwys amlinelliad o sut y byddech yn ymdrin â'r prosiect hwn o safbwynt gwerthuswyr
- Dyfynbris/dadansoddiad o'r costau, yn unol â'r gyllideb/ffi a grybwyllir uchod.

Anfonwch bopeth at Gynhyrchydd y Prosiect, Åsa Malmsten ar e-bost;

[asa.malmsten@coachcreate.co.uk](mailto:asa.malmsten@coachcreate.co.uk)

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 11<sup>eg</sup> Chwefror 2022

Cynhelir cyfweiliadau'r wythnos sy'n dechrau'r 14<sup>eg</sup> Chwefror.

Rydym am gwblhau'r broses recriwtio erbyn y 25<sup>ain</sup> Chwefror, gyda'r bwriad o gael y gwerthuswr ar waith o fis Mawrth 2022.

Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad arbennig i'ch galluogi i wneud cais am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at Gynhyrchydd y Prosiect: [asa.malmsten@coachcreate.co.uk](mailto:asa.malmsten@coachcreate.co.uk)